SchoolBeat.org




Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

# Cylchlythyr

# Haf 2013

The All Wales School Liaison Core Programme · Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


- **Eitem nodwedd arbennig:**
  **Cam-drin Domestig** Tud. 1, 2, 3 & 4
- **Beth fu'n digwydd:**
  **Cwis Cenedlaethol** Tud. 5
- **Taflu goleuni ar gyffuriau: Alcohol** Tud. 6
- **Wyddech chi?**
  **Cynadleddau Athrawon** Tud. 7
- **Beth sy'n newydd?**
  **Adnoddau** Tud. 8
- **I ddod yn fuan:**
  **Adnoddau a Gwefan SchoolBeat** Tud. 9


Annwyl Gydweithiwr,
Gobeithio i chi gael gwyliau Pasg pleserus. Mae y rhifyn haf hwn yn llawn o erthyglau diddorol ac yn cynnwys eitem arbennig ar gam-drin domestig a materion yn ymwneud â chydsyniad yn ôl y gyfraith.

# Eitem nodwedd arbennig: Cam-drin domestig

Penderfynwyd ar ddiffiniad newydd ar gyfer cam-drin domestig ym mis Mawrth 2013. Roedd yr hen ddiffiniad ond yn cyfeirio at oedolion ac felly nid oedd yn rhoi darlun cwbl gywir. Fel y gŵyr pawb ohonom, mae cam-drin domestig yn y cartref yn effeithio ar bobl ifanc a hefyd mae rhai yn eu harddegau yn rhan o berthynas gamdriniol.
Daw'r ffaith hon o Arolwg Troseddu Prydain 2009/10 a ganfu mai pobl ifanc 16-19 oed oedd y mwyaf tebygol o ddioddef camdriniaeth gan bartner.



"Canfu un astudiaeth bod menywod ar gyfartaledd yn dioddef 35 digwyddiad o gam-drin domestig cyn eu bod yn cysylltu â'r heddlu.  Pan na fydd menywod yn riportio cam-drin domestig mae'n annhebygol y bydd profiadau eu plant yn cael eu riportio."

## NSPCC

Mae 12.7% o fenywod ifanc a 6.2% o ddynion ifanc yn y grŵp oedran hwn yn dioddef camdriniaeth, o gymharu â 7% o fenywod a 5% o ddynion mewn grwpiau oedran hŷn.

Gellir diffinio cam-drin domestig fel: *unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o orfodaeth neu ymddygiadau bygythiol, trais neu gam-drin (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) rhwng oedolion 16 oed neu drosodd, sydd yn neu wedi bod yn bartneriaid clos, partneriaid ar ddêt neu aelodau teulu, waeth beth fo'u rhyw neu eu rhywioldeb.*

Mae'r diffiniad hwn wedi ei ehangu i rai 16-17 oed ac mae'r geiriad nawr yn cynnwys rheolaeth gorfodi.

## Beth yw ymddygiad rheoli neu orfodi?

**Ymddygiad rheoli** yw ystod o weithredoedd sydd wedi eu bwriadu i wneud person yn israddol ac/neu'n ddibynnol drwy eu hynysu oddi wrth ffynonellau cefnogaeth, gan gam-fanteisio ar eu hadnoddau a'u gallu i gael mantais bersonol, eu hamddifadu o'r modd sydd ei angen am annibyniaeth, gwrthsafiad a dianc.
**Ymddygiad gorfodi** yw gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, bychanu a brawychu a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn eu dioddefwyr.

*"Mewn teuluoedd lle bydd cam-drin domestig, gall plant hefyd gael eu cam-drin yn gorfforol a rhywiol. Mae astudiaethau ymchwil yn amcangyfrif, mewn 30% i 60% o achosion cam-drin domestig, bod y partner sy'n cam-drin hefyd yn cam-drin plant yn y teulu."*
***- NSPCC***



Gallai **mathau o gam-drin domestig** gynnwys ystod o ymddygiadau camdriniol. Nid gweithred o drais corfforol ydyw o reidrwydd; gall fod yn batrwm o ymddygiad rheoli. Gall ddigwydd y tu fewn neu tu allan i'r cartref. Bydd dioddefwyr yn dioddef gwahanol gyfuniadau o gam-drin - corfforol, rhywiol, emosiynol, seicolegol, cymdeithasol ac ariannol.

## Profiad plant mewn cartrefi sydd â cham-drin domestig:

- Gweld trais neu glywed gweiddi, sgrechiadau neu grio o ystafell arall;
- Bod yn dyst i ganlyniad trais, megis briwiau i'r croen neu gleisiau a'r effaith emosiynol ar y rhiant gaiff ei gam-drin
- Ymyrryd rhwng yr un sy'n cam-drin a'r person arall, gan weithiau gael anaf corfforol yn y broses
- Cael ei anafu'n fwriadol er mwyn brawychu'r rhiant sydd ddim yn cam-drin.

*"Mae mam a dad yn ffraeo drwy'r amser a bydd dad yn taro mam. Pan fyddai'n gofyn iddo beidio mae'n fy mygwth i, fy ngwthio ac yn galw enwau arnaf. "*
***- Childline***

Yng Nghymru yn 2010 roedd gan 4,782 o blant a phobl ifanc brofiad uniongyrchol o achosion cam-drin domestig. Yn wir, roedd 2,700 o blant (yn cynnwys plant heb eu geni) ar Gofrestri Amddiffyn Plant ym mis Mawrth 2010.
Yn y sefyllfa lle mae'r cam-drin yn digwydd o fewn y cartref, nodir plant a phobl ifanc fel dioddefwyr. Amddiffynnir y plant hyn gan gyfreithiau'n ymwneud ag amddiffyn a diogelu plant.

Nid digwyddiad 'unwaith yn unig' yw cam-drin domestig. Mae'n rhywbeth aml a chyson.



Bydd y rhan fwyaf o blant yn dyst i drais sy'n digwydd adref ac mewn 80% o achosion maent yn yr un ystafell neu'r ystafell drws nesaf.
**- NSPCC**

Gall plant ddioddef effeithiau gwybyddol, ymddygiadol ac emosiynol byr dymor a hirdymor o ganlyniad i fod yn dyst i gam-drin. Mae'n bwysig cofio y bydd pob plentyn yn ymateb yn wahanol i'r trawma. Efallai y bydd rhai yn gadarn a ddim yn dangos unrhyw effeithiau negyddol. Gall ymateb plant i'r trawma o fod yn dyst i drais domestig amrywio o ganlyniad i nifer o ffactorau yn cynnwys oed, hil, rhyw a chyfnod datblygiad.

Gall plant hefyd deimlo'n ddig, euog, ansicr, yn unig, wedi dychryn, yn ddi-rym neu wedi drysu.


Efallai y bydd ganddynt deimladau amwys tuag at y rhiant sy'n cam-drin a'r un sydd ddim.

## Beth ddywed plant maent ei eisiau!

- Siarad a rhywun sy'n gwrando arnynt
- Gwybod a deall beth sy'n digwydd
- Diogelwch ar gyfer eu ffrindiau a'u teulu
- Mwy o wasanaethau, gweithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi a gwybodaeth i'w cynorthwyo

*"Mae oedolion yn meddwl y dylent guddio a pheidio â dweud wrthym ni, ond rydym am wybod, rydym am fod yn rhan ac rydym am i'n mamau siarad â ni ynglŷn â beth maent yn mynd i'w wneud; gallem eu helpu i wneud penderfyniadau "*
**- Merch yn siarad â'r NSPCC**

## Cam-drin domestig a pherthynas rhai yn eu harddegau



Mewn astudiaeth ddiweddar gan yr NSPCC a Phrifysgol Caerfaddon holwyd 1,353 o bobl ifanc (rhwng 13 a 17 oed, o wyth ysgol yn y DU) ynglŷn â thrais yn eu perthynas agos. Mae pwyntiau allweddol o'r ymchwil yn cynnwys y canlynol:

- Soniodd 33% o ferched ac 16% o fechgyn am ryw ffurf ar gam-drin rhywiol
- Soniodd 25% o ferched (yr un gyfran â menywod sy'n oedolion) a 18% o fechgyn am ryw ffurf ar gam-drin corfforol mewn perthynas
- Soniodd 75% o ferched a 50% o fechgyn am ryw ffurf ar gam-drin emosiynol mewn perthynas
- Y mathau mwyaf cyffredin o gam-drin emosiynol y soniwyd amdanynt, waeth beth oedd eu rhyw, oedd 'gwneud hwyl am eu pen' a 'partner yn gwirio beth oeddent yn ei wneud yn gyson'
- Roedd cyfranogwyr iau (13 i 15 oed) yr un mor debygol â phersonau ifanc hŷn (16 oed a drosodd) i brofi rhyw fath o gam-drin mewn perthynas
- Dywedodd y mwyafrif o bobl ifanc wrth naill ai ffrind neu wrth neb am y trais; dim ond lleiafrif a ddywedodd wrth oedolyn
- Gall ffactorau risg a allai gynyddu pa mor agored yw person yn ei arddegau i gam-drin o fewn perthynas gynnwys profiadau blaenorol o drais domestig gan rieni, cam-drin corfforol a rhywiol a grwpiau cyfoedion treisgar.

## Yr arwyddion rhybudd



- Arwyddion corfforol o anafiadau/salwch
- Triwantiaeth, canlyniadau ysgol yn gwaethygu
- Cilio, goddefedd, ufuddhau
- Newidiadau mewn hwyliau a phersonoliaeth
- Ynysu oddi wrth deulu a ffrindiau
- Negeseuon testun a galwadau cyson gan gariad
- Ymddygiad/ iaith/ agweddau rhywiol amhriodol
- Iselder
- Beichiogrwydd
- Defnyddio cyffuriau / alcohol (lle nad oedd defnydd yn flaenorol)
- Hunan-niweidio
- Anhwylderau bwyta neu broblemau cysgu
- Symptomau anhwylder straen ôl-drawmatig
- Bwlio/ dioddef bwlio

*"Gall cam-drin o fewn perthynas gael effaith negyddol ar pa mor ddiogel mae pobl ifanc yn teimlo yn yr ysgol – caiff hyn effaith ar eu cyfranogiad, eu cyflawniad a'u haddysg."*
***- Teen Abuse Teachers Guide, Y Swyddfa Gartref.***

Help a chyngor

0808 80 10 800

### Cam-drin rhywiol mewn perthynas yn yr arddegau

*"Byddai'n fy ngorfodi i wneud pethau rhywiol nad oeddwn am eu gwneud a hefyd lledu sïon drwy'r ysgol fy mod yn 'hawdd'. Ar y pryd fe wnes i sôn am hyn gyda rhai o'm ffrindiau ond dydw i ddim yn meddwl eu bod yn deall beth oedd yn digwydd mewn gwirionedd."*
***- Merch13 oed – The Hide Out - www.thehideout.org.uk***

## Beth yw cydsyniad?

Cydsyniad yw rhywun yn rhoi caniatâd neu'n cytuno i rywbeth, wedi iddynt feddwl yn ofalus ynglŷn ag a ydynt am wneud hynny neu beidio. **Dylai fod dim pwysau i gydsynio.** Yn ôl y gyfraith rhaid i berson ifanc fod yn 16 i roi cydsyniad.

**Mae angen i bobl ifanc mewn perthynas i gael eu grymuso i sylweddoli:**

Nad yw cydsyniad i un math o weithgaredd rhywiol yn golygu eu bod yn rhoi cydsyniad i bopeth. Mae angen caniatâd ar gyfer pob gweithgaredd


Gall cydsyniad gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Os bydd partner yn newid ei feddwl/meddwl ar unrhyw adeg, ei hawl ef neu hi yw gwneud hynny

Hyd yn oed os ydynt wedi cael rhyw gyda rhywun yn y gorffennol, mae angen i berson ifanc gael caniatâd eu partner y tro nesaf

Os ydynt dan ddylanwad alcohol yna ni ellir rhoi cydsyniad.

**OS NA RODDIR CYDSYNIAD - MAE'N DRAIS NEU YMOSODIAD RHYWIOL.**

Gall eich SHCY gyflwyno gwers neu wasanaeth Perthynas Ddiogelach i CA4 neu sesiwn i grŵp bach o ddisgyblion sy'n ymdrin â thrais ac ymosodiad rhywiol.




Mae gan y DU un o'r cyfraddau uchaf o feichiogrwydd ymhlith rhai yn eu harddegau yng Ngorllewin Ewrop. Mae bod yn feichiog yn gyfnod risg uchel i gam-drin ddechrau neu waethygu gan fod mynychder cam-drin yn uwch ymhlith mamau ifanc na menywod ifanc eraill. Yn wir, mae menywod ifanc sy'n cael eu cam-drin yn 4-6 mwy tebygol na'u cyfoedion sydd ddim yn cael eu cam-drin o ddod yn feichiog.

# Rownd Derfynol Cwis Rhaglen Graidd Genedlaethol 7 Chwefror 2013

## Ysgol Gyfun Syr Thomas Picton Hwlffordd yn fuddugol!




**Cynhaliwyd Rownd Derfynol Genedlaethol Cwis Rhaglen Graidd Cymru Gyfan yng Ngwesty'r Copthorne, Caerdydd. Y pedwar tîm oedd yn cystadlu am y tlws cenedlaethol oedd enillwyr rhanbarthol bob un o ardaloedd heddluoedd Cymru:**

- Ysgol Gyfun Cil-y-Coed, yn cynrychioli Gwent
- Ysgol Gyfun Llangatwg, Castell-nedd yn cynrychioli De Cymru
- Ysgol Syr Thomas Picton, Hwlffordd yn cynrychioli Dyfed Powys
- Ysgol Uwchradd Bodedern, Ynys Môn yn cynrychioli Gogledd Cymru




De Cymru: Ysgol Gyfun Llangatwg, Castell-nedd Comprehensive, Neath



Gwent: Ysgol Gyfun Cil-y-Coed.



Gogledd Cymru, Ysgol Uwchradd Bodedern, Ynys Môn

Meddai un o'r athrawon, *"Maent wedi llyncu llawer o wybodaeth a ffeithiau pwysig a byddant yn defnyddio'r rhain fel rhan o'n cynllun mentora i ddysgu eraill."*

Yn ystod y cwis, a gyflwynwyd gan Kevin Johns o Radio Sain Abertawe, bu'r timau'n ateb cwestiynau ar gyffuriau a sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, lleihau llosgi bwriadol, diogelwch personol, diogelwch ar y ffyrdd, materion iechyd, oedrannau yn ôl y gyfraith ac fe'u profwyd hefyd ar eu gallu i arsylwi. Cododd y tensiwn wrth i'r rowndiau fynd rhagddynt gyda dim ond ychydig o bwyntiau yn gwahanu'r holl dimau ar ddechrau'r rownd olaf. Ar ddiwedd rownd chwech bu aros eiddgar am y sgôr terfynol. Yna cadarnhaodd Kevin Johns mai'r ysgol fuddugol oedd Ysgol Syr Thomas Picton, Hwlffordd.

Meddai un o'r disgyblion, *"Roedd y gystadleuaeth yn wych, roedd y tocynnau iTunes a'r cofroddion Gemau Olympaidd yn wych; Bydd rhywbeth gennyf i'w gofio am byth."*

# Taflu goleuni ar gyffuriau: Alcohol

Bydd problemau alcohol mewn teuluoedd yn aml yn achosi diflastod ar gyfer plant ac aelodau eraill y teulu. Mae'r amcangyfrifon ynglŷn â nifer y plant yn y DU sy'n byw gyda rhieni sydd â phroblemau alcohol yn amrywio o 1.3 miliwn i 2.5 miliwn.

Gall cynifer â 64,000 o blant yng Nghymru gael eu heffeithio'n andwyol gan broblemau alcohol rhiant, ac mae'n debyg mai amcangyfrif ceidwadol yw hwn. Hefyd, amcangyfrifir bod nifer y plant yr effeithir arnynt gan gamddefnydd rhieni o alcohol bum gwaith yn uwch na'r rhai yr effeithir arnynt gan rieni'n camddefnyddio cyffuriau.

## Profiadau negyddol o blant a phobl ifanc yn bwy gyda chamddefnydd alcohol rhiant

- Lefelau trais uchel
- Profi neu weld esgeulustod neu gamdriniaeth corfforol, geiriol neu rywiol
- Rhianta gwael a/neu esgeulus
- Anghysondeb gan un neu'r ddau riant
- Gorfod gwneud rolau cyfrifol neu rianta o oed cynnar
- Teimlo emosiynau negyddol megis cywilydd, euogrwydd, ofn, dicter ac embaras
- Canlyniadau niwroddatblygol posibl o gamddefnydd cyffuriau yn ystod beichiogrwydd (e.e. syndrom alcohol y ffetws) a all gyfrannu i oedi mewn datblygiad neu anawsterau dysgu.

Tair egwyddor allweddol:

- Ni ddylai plant o dan 15 oed yfed alcohol oherwydd ceir tystiolaeth y gall niweidio'r ymennydd sy'n datblygu, yr esgyrn a'r hormonau
- Gall yfed pan yn 15 oed a hŷn fod yn berygl i iechyd. Mae yfed sbri a defnydd alcohol trwm yn rhoi pobl ifanc mewn perygl mawr – o ran anafiadau, ymladd, gweithgaredd rhywiol sy'n cael ei ddifaru a chamddefnydd sylweddau
- Os bydd rhieni'n defnyddio alcohol yn gyfrifol mae'n fwy tebygol y bydd eu plant yn gwneud hynny. Gall rhieni a gofalwyr ddiogelu plant rhag camddefnydd alcohol drwy gynnal perthynas agos gyda'u plant, gosod rheolau clir am alcohol a goruchwylio yfed eu plant.

## Yn syth o'r wasg!



Ers 26 Chwefror mae Methoxetamine (MXE), sydd wedi bod yn y categori gwaharddiad dros dro ar gyfer cyffuriau ers 4/4/12, wedi ei roi yng nghategori Dosbarth B. Mae hyn hefyd yn wir am Black Mamba.

***"Ni ddylai plant o dan 15 oed yfed alcohol" -Cyngor gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Dr Tony Jewell***

Cyfeiria Dr Tony Jewell at ymchwil sy'n dangos tystiolaeth glir y gall alcohol niweidio datblygiad plant. Nod canllawiau newydd ar gyfer rhieni, a elwir yn,' You, Your Children and Alcohol', yw helpu i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag risgiau cysylltiedig ag yfed alcohol.

Dengys ymchwil bod:
- pedwar o bob 10 plentyn 15 oed yng Nghymru yn yfed alcohol yn wythnosol
- dau o bob un 10-15 oed yn dweud eu bod wedi meddwi am y tro cyntaf pan yn 13 oed neu iau.

Yn y trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd bydd barn plant am alcohol yn aml yn newid, o fod yn gyffredinol negyddol i fod yn gadarnhaol. Mae'r mentrau addysgol gorau yn:
- rhoi ffeithiau i'r plant
- tynnu eu sylw at ganlyniadau iechyd, cyfreithiol a chymdeithasol posibl defnydd anghyfrifol
- rhoi sgiliau iddynt fel y gallant wrthsefyll pwysau cyfoedion cyn bod y cysyniadau hyn yn newid.

# Cynhadledd Athrawon 2013

**Wyddech chi?**

- Nodwyd 412 o Gyffuriau Newydd sy'n Ymddangos (NEDs) yn y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda 4 gwaith yn fwy yn cael eu canfod yn y DU nac yn unrhyw wlad arall
- Mae Cymru wedi gweld cynnydd sylweddol mewn defnydd Meffedron. Cynyddodd troseddau a gofnodwyd yng Nghymru gan 83% yn 2011-12
- Yng Nghymru mae'r diffiniad o gam-drin domestig wedi newid i gynnwys pobl ifanc 16 oed neu hŷn. Mae 12.7 % o fenywod a 6.2 % o ddynion yn y grŵp oedran 16-19 yn cael eu cam-drin gan bartner
- Ar-lein darganfu 1 ym mhob 8 o bobl ifanc 8-18 oed bod rhywun yr oeddynt yn cyfathrebu â hwy yn oedolyn a oedd yn esgus bod yn rhywun llawer iau.



Sylw gan un o'r athrawon o werthusiad y gynhadledd, *"Gwych! Dangoswyd digon o adnoddau i'w defnyddio ar unwaith mewn ysgolion. Ehangodd fy ngwybodaeth yn fawr, ac roeddwn yn meddwl fy mod yn eithaf ymwybodol."*

Ym mis Ionawr mynychodd 151 o athrawon uwchradd 3 cynhadledd ledled Cymru, wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Canolbwyntiodd y cynadleddau ar arfer gorau mewn addysg defnydd a chamddefnydd sylweddau, gwrth-fwlio, cam-drin domestig a diogelwch ar y rhyngrwyd fel rhan o'r cwricwlwm ABCh.

Cyflwynwyd yr hyfforddiant gan Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, Rhwydwaith Cymru o Ysgolion Iach, Plant yng Nghymru, Hafan Cymru a Wise Kids gyda chefnogaeth CEOP, y Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein.

Roedd y dyddiau yn llwyddiannus iawn gyda 100% o'r cynadleddwyr yn graddio'r hyfforddiant cyffredinol fel ardderchog neu da iawn. Dywedodd athrawon eu bod yn mynd yn ôl i'w hysgolion gyda'r bwriad o ddiweddaru eu cynlluniau gwaith a'u polisïau ABCh a rhoi adborth i aelodau eraill staff fel rhan o ddull ysgol gyfan.

*"Diwrnod ardderchog, pleserus iawn gydag adnoddau a chyngor rhagorol sy'n berthnasol a chyfoes."*
**- Sylw gan un o'r athrawon**

# Beth sy'n newydd?

## Adnoddau


Adnoddau athrawon priodas dan orfod i'w cael ar wefan schoolbeat yn y llinyn ymddygiad o dan - Hawliau a Chyfrifoldebau - gwaith Dilynol Athrawon ar gyfer CA4.

**Gwahanol wasanaethau a gyflwynir gan swyddogion ysgol**

### Gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau a sylweddau




CA2 Dechrau Meddwl am y Broblem



CA3 Camddefnyddio Diod, beth sydd angen i chi ei wybod mewn gwirionedd



Cyffuriau CA2




Cyffuriau CA3

### Gwasanaethau diogelwch ar y rhyngrwyd













### Gwasanaethau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol



CA2




CA3

### Gwasanaethau gwrth-fwlio




CA2




CA3

# I ddod yn fuan!

Erbyn mis Medi, y nod yw bod yr adran rhieni yn gwbl weithredol. Ceir yno'r cyngor diweddaraf, gwybodaeth am ac adnoddau cyfeirio at asiantaethau, a hefyd cymorth gyda chamddefnydd cyffuriau a sylweddau, diogelwch plant ac ymddygiad. Os nad yw eich ysgol wedi gwneud hynny'n barod, efallai y byddech am gael hyperddolen o wefan eich ysgol i'n gwefan ni. www.schoolbeat.org

Mae gemau newydd yn cael eu datblygu ar gyfer yr adran disgyblion er mwyn gwneud gwaith dilynol ar  wers CA2 Isaf a elwir yn Aros yn SMART. Dylai'r rhain hefyd fod ar gael ym mis Medi.

Peidiwch ag anghofio bod llawer o adnoddau cyfoes o safon uchel yn ein hadran athrawon er mwyn eu defnyddio yn y dosbarth gyda disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen i CA4.

## CA2
## Y Darlun Cywir

Gwers ffonau symudol newydd ar gyfer disgyblion CA2. Nod y wers yw cynorthwyo disgyblion i allu defnyddio ffôn smart yn ddiogel ac adnabod camddefnydd ffonau symudol.

**Ar gael Medi 2013**

## CA4
## Twyll Peryglus

Gwers newydd ar gam-fanteisio ar blant sy'n cynorthwyo disgyblion i ddeall beth yw cam-fanteisio rhywiol a lle i fynd am gymorth.

*"Mae'r Rhaglen Graidd yn rhan bwysig o'n cwricwlwm ABCh. Yn ogystal â chyflwyniad gwersi o safon a wneir gan ein swyddog ysgol, mae gwefan Schoolbeat yn cynnig llawer o adnoddau a chyngor gwych i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth."*
***- Athro Blwyddyn 6***

